| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **20 Hydref, 2011** |
| **TEITL** | **TREFNIADAU DEMOCRATAIDD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno cynigion i newid i drefniadau gweithredol** |
| **AWDUR** | **Dilys Phillips, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor.** |

## Cefndir

1.1 Daeth mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i rym ar y 10$^{fed}$ o Orffennaf. Un o ddarpariaethau'r mesur yw fod raid i Gyngor Gwynedd newid ei drefniadau o "drefniadau amgen" (Bwrdd) i "drefniadau gweithrediaeth" (Cabinet). Mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer newid i drefniadau gweithrediaeth erbyn y 10$^{fed}$ o Ionawr, 2012 ac yna eu gweithredu o fewn chwe mis.

1.2 Mae disgwyl i'r cynigion gynnwys manylion ynglŷn â'r isod:

- Pa fath o weithrediaeth fydd gan y Cyngor.
- Pa rai o'r swyddogaethau dewisol fydd yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. (Swyddogaethau dewisol yw y rhai all fod yn gyfrifoldeb naill a'i i'r Cyngor neu i weithrediaeth).
- Amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion.
- Datganiad sy'n egluro'r rhesymau pam fod y Cyngor o'r farn y bydd ei gynigion yn sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu cymryd mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

1.3 Bu gweithgor o'r Prif Bwyllgor Craffu yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynigon drafft. Cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 6 Hydref ac i Fwrdd y Cyngor ar 11 Hydref pan benderfynwyd argymell y cynigion i'r Cyngor Llawn.

1.4 Bu'r cynigion yn destun trafodaeth hefo aelodau mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ystod Mehefin a Gorffennaf (mynychodd 58 aelod) ac yna mewn adroddiadau i'r pwyllgorau ardal fis Medi.

## Y Cynigion

### Ffurf y weithrediaeth

2.1 Mae dau ddewis i'r Cyngor :-

(a) **Maer Etholedig a Chabinet**.

Dan y model yma byddai'r maer yn cael ei ethol yn uniongyrchol gan etholwyr Gwynedd am dymor o bedair blynedd. Byddai'r maer wedi ei ethol ar faniffesto a byddai holl bwerau'r Cyngor yn cael eu gweithredu gan y maer etholedig. Byddai'r maer yn dewis cabinet i'w gynorthwyo (rhwng dau a naw aelod) ac fe allai ddirprwyo hawliau penodol i aelodau'r cabinet. Byddai'r cabinet yn ei le i weithredu yr ymrwymiadau ym maniffesto'r maer. Os bydd y Cyngor o blaid maer a chabinet bydd angen refferendwm i gefnogi'r newid. Os bydd y refferendwm yn penderfynu yn erbyn trefn maer, bydd raid i'r Cyngor fod hefo cynigion wrth gefn ar gyfer Arweinydd a Chabinet.

(b) **Arweinydd a Chabinet.**

Dan y model yma mae'r arweinydd yn cael ei ethol o blith y cynghorwyr gan y Cyngor llawn, a gall gael ei symud o'r swydd gan y Cyngor llawn. Bydd cabinet o ddim mwy na deg cynghorydd (gan gynnwys yr arweinydd) a dim llai na thri. Bydd penodiadau i'r cabinet yn cael eu gwneud naill ai gan y Cyngor llawn neu gan yr arweinydd, yn dibynnu ar yr union drefn mae'r Cyngor yn ei dewis. Ni fydd raid i'r cabinet gael ei ddewis ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ond fe ellir gwneud hynny os mai dyna fyddai dymuniad y Cyngor newydd. Bydd pwerau gweithredu y Cyngor yn cael eu rhoi, naill ai i'r cabinet yn ei gyfanrwydd neu i bwyllgor o'r cabinet neu i aelodau unigol o'r cabinet. Bydd unrhyw bwerau wrth gefn yn mynd i'r arweinydd i'w gweithredu neu eu dyrannu.

2.2 Wedi ystyried nifer o faterion ynghylch y ddwy ffurf, yn ymwneud ag atebolrwydd, cost, risg a democratiaeth, a nodi nad oedd yr un cyngor arall yng Nghymru yn rhedeg trefn Maer a Chabinet, daeth y gweithgor i'r casgliad fod ffurf Arweinydd a Chabinet yn rhagori, am y rhesymau canlynol.

2.3 Bydd ffurf gweithrediaeth Arweinydd a Chabinet yn galluogi'r Cyngor i osod cyfeiriad mwy pendant a chlir ar faterion polisi allweddol. Tra'n galluogi'r weithrediaeth i wneud penderfyniadau mewn ffordd fyw effeithiol ac effeithlon, byddai'n sicrhau atebolrwydd clir am y penderfyniadau a wneir a'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd hefyd yn cryfhau atebolrwydd gwleidyddol, a bydd y Cyngor Llawn yn cadw'r hawl i benodi a diswyddo'r Arweinydd.

2.4 Byddai ffurf gweithrediaeth Maer a Chabinet yn canolbwyntio gormod o bŵer yn nwylo un person heb sicrhau atebolrwydd gwleidyddol digonol i aelodau'r Cyngor. Ni fyddai gan y Cyngor Llawn na neb arall yr hawl i ddiswyddo'r Maer yn ystod tymor ei swydd. Byddai hyn yn gwanhau'n sylweddol yr elfen o alw i gyfrif ym mhenderfyniadau a gweithgareddau'r Cyngor. Byddai hefyd gostau ychwanegol pherwyd yr angen i gynnal refferendwm ynghyd ag etholiad ychwanegol. Ni fyddai'r drefn yn addas oherwydd natur y Sir; byddai maer o ardal boblog yn ei chael yn anodd i gynrychioli ardal wledig, ac i'r gwrthwyneb.

2.5 Mae'r Gweithgor, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn **argymell** y dylid mabwysiadu ffurf Arweinydd a Chabinet o weithrediaeth.

**Y Model Arweinydd a Chabinet**

3.1 O benderfynu cael ffurf gweithrediaeth Arweinydd a Chabinet, mae gofyn i'r Cyngor ddewis rhwng dau fodel :-

(a) Y Cyngor yn dewis y Cabinet
(b) Arweinydd y dewis y Cabinet.

3.2 Yn dilyn edrych ar fanteision ac anfanteision y ddau opsiwn ynghyd â siarad gyda chynghorau eraill, daeth y Gweithgor i'r casgliadau canlynol :

- Mae nifer y siroedd sydd wedi dewis trefn Arweinydd yn penodi (sef 15 allan o 21 sir gan gynnwys yr holl siroedd o fewn y "teulu") yn awgrymu mai dyna'r drefn orau.
- Byddai atebolrwydd a chyfrifoldeb yn glir os mai'r arweinydd sy'n penodi a byddai modd cael pleidlais o ddiffyg hyder ynddo/ynddi.
- Byddai yna lai o atebolrwydd os oedd y Cyngor yn penodi gan na fyddai'n glir yn lle fyddai'r cyfrifoldeb yn gorwedd.
- Teimlwyd fod trefn lle mae'r Cyngor yn penodi'r un fath â threfn Arweinydd yn penodi mewn gwirionedd gan mai'r Arweinydd sydd yn enwebu yn y cynghorau lle mae Cyngor yn penodi. Fel canlyniad, gellid dweud bod trefn o'r fath yn llai agored a democrataidd.
- Byddai cyfrifoldeb ar yr Arweinydd i ddewis y person gorau i'r swydd oherwydd ef/hi fydd yn atebol yn y pen draw.
- Y byddai Arweinydd sy'n penodi'r Cabinet yn gryfach arweinydd ac y dylid ystyried hyn fel rhywbeth cadarnhaol
- Bod cyfrifoldeb ar gynghorwyr i wneud y dewis gorau wrth benodi Arweinydd a bod rhaid wedyn ymddiried yn y person hwnnw
- Datganwyd pryder y byddai gormod o bŵer yn cael ei roi yn nwylo'r Arweinydd, a byddai'n anodd cael pleidlais o ddiffyg hyder.

3.3 O'u pwyso a'u mesur mae'r Gweithgor o'r farn mai'r model gorau yw lle mae Arweinydd y penodi'r Cabinet ac mae'r Gweithgor, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn **argymell** mabwysiadu'r model hwnnw er sicrhau trefniadau effeithlon, tryloyw ac atebol.

**Swyddogaethau dewisol**

4.1 Un o'r materion mae'n rhaid i'r Cyngor ei gynnwys yn ei gynigion i'r Cynulliad ydi datganiad ynghylch i ba raddau mae'r weithrediaeth i fod yn gyfrifol am wahanol swyddogaethau.

4.2 I'r diben hwn mae swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu dyrannu i 3 categori :-

(i) swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor llawn ac na allent fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;
(ii) swyddogaethau sy'n fater o "ddewis lleol", h.y. lle mae'r Cyngor yn penderfynu pa un ai'r weithrediaeth yntau'r Cyngor Llawn sydd i fod yn gyfrifol amdanynt, a
(iii) pob swyddogaeth arall, sydd yn awtomatig yn disgyn o fewn cyfrifoldebau'r weithrediaeth.

4.3 Y swyddogaethau yng nghategori (ii) sydd dan ystyriaeth yma. Mae'r gweithgor wedi ystyried y mater ac wedi dod i'r casgliad y dylid cadw'r trefniadau fel y maent ar hyn o bryd gyda'r swyddogaethau sydd yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd presennol yn trosglwyddo i'r Cabinet a'r gweddill yn aros hefo'r Cyngor heblaw am y ddau fater canlynol.

(a) Dylai materion yn ymwneud â phenodi aelodau o awdurdod yr heddlu a gofyn cwestiynau am faterion awdurdod heddlu fod yn gyfrifoldeb i'r Cyngor llawn yn hytrach na'r Cabinet gan y byddai hynny'n fwy democrataidd

(b) Dylai materion yn ymwneud â niwsans statudol a rhybuddion buddiant mewn tir (sydd yn ymarferol yn faterion wedi eu dirprwyo i swyddogion i'w gweithredu) fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet gan y byddai hynny'n fwy effeithlon

4.4 Mae'r Gweithgor, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn **argymell** y dylid gwneud y newidiadau uchod i'r swyddogaethau dewisol.

**Amserlen**

5. Mae'r Gweithgor, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn **argymell** y dylai'r trefniadau newydd ddod i rym ar gychwyn tymor y Cyngor newydd yn syth wedi etholiadau Mai 2012 ac nad oes angen unrhyw drefniadau trosiannol.

## Camau Nesaf

6.1 Yn dilyn mabwysiadu'r cynigion gan y Cyngor llawn bydd cyfnod o gyhoeddusrwydd cyn iddynt gael eu hanfon i'r Cynulliad fis Rhagfyr.

Bwriedir rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion trwy'r dulliau canlynol

- Coleg uwch reolwyr
- Cyfarfodydd blynyddol hefo'r cynghorau cymuned
- Panel dinasyddion
- Newyddion Gwynedd
- Cyfarfodydd neu fforymau budd-ddeiliaid

6.2 Un rhan o'r newidiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol ydi'r ochr weithredol. Lawn cyn bwysiced ydi'r newidiadau fydd angen eu gwneud i gryfhau rol yr aelod mainc gefn a sicrhau y gellir dal y cabinet i gyfrif. Bydd y Gweithgor yn parhau i roi sylw i hyn dros yr wythnosau nesaf a bydd adroddiad pellach sy'n cyfarch yr elfen hon yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor fis Rhagfyr.

## Argymhelliad

7. Bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r cynigion isod am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad hwn:

a) ffurf Arweinydd a Chabinet o weithrediaeth
b) model lle mae'r Arweinydd yn penodi'r Cabinet
c) y newidiadau a amlinellir ym mharagraff 4.3 i'r swyddogaethau dewisol
ch) gweithredu ym Mai 2012 heb drefniadau trosiannol